**Swydd:** Cwnselydd

Swydd tymor penodol hyd at Hydref 2027

**Oriau Gwaith Wythnosol:** 7-14 awr (1 neu 2 ddiwrnod llawn) yn gweithio'n hyblyg

**Tâl:** Oriau rhan-amser yn cael eu talu ar gyflog amser llawn gyfatebol o £31,000

**Lle gwaith**: Cartref / Pencadlys Canol Dinas Caerdydd. Darperir offer TG gan y byddwch yn darparu eich gwasanaeth cwnsela ar-lein a thros y ffôn. Bydd angen lle gweithio addas arnoch i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

Cyflawnir y rôl gwnsela o gartref o ddydd i ddydd a bydd angen i chi fod yn hyblyg i deithio i'r Pencadlys neu gyfarfodydd allanol yn ôl yr angen.

**Cyfweliad:** Dylech fod ar gael i gyfweld yn bersonol yn y Pencadlys ar yr wythnos yn dechrau 8 Rhagfyr. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau gwiriad DBS Manwl i weithio gydag oedolion agored i niwed yng nghyfnod cynnig swydd.

**Y Swydd Cwnselydd**

Mae darparu cwnsela ar-lein neu dros y ffôn i bobl yr effeithir arnynt gan ganser yn golygu y byddwch yn defnyddio eich profiad cwnsela i newid bywydau llawer o bobl ar wahanol adegau yn eu profiad canser. Fel ein cyfathrebwr ymroddedig yn y Gymraeg, byddwch yn cynnig gwasanaeth iaith cwnsela wedi'i deilwra a byddwch yn gallu arwain neu gymryd rhan yn ein gwaith cwnsela grŵp ar lein hefyd.

Dylai eich cais ddangos eich cymhelliant i wneud cais am y rôl a sut rydych chi'n cyd-fynd â gofynion hanfodol y rôl. I fod yn addas, rydym yn chwilio am:

- Cymwysterau cwnsela angenrheidiol a sut y maent wedi'u cymhwyso'n ymarferol
- Dulliau cydweithredol a chefnogol o weithio mewn tîm a dod o hyd i atebion
- Gallu technegol i ddarparu gwasanaethau cwnsela ar-lein a thros y ffôn a chadw eich gwaith gweinyddol yn gywir ac yn gyfredol yn electronig
- Rhywun sy'n broffesiynol ac yn addasadwy yn ei arddull cwnsela i gefnogi nodau ein tîm
- Er nad yw cwnsela penodol i ganser yn hanfodol, mae'n ffafriol os oes gennych brofiad o weithio gyda phobl yr effeithir arnynt gan ganser neu gyflyrau iechyd cronig eraill

**Buddion Staff**

Pan fyddwch yn ymuno â theulu Gofal Canser Tenovus byddwch yn elwa o:

- Drefniadau gweithio hyblyg i'ch helpu i gyflawni eich gorau yn y gwaith a rheoli meysydd eraill o'ch bywyd yn effeithiol
- 35 diwrnod hael o wyliau blynyddol (yn seiliedig ar oriau llawn amser) gan gynnwys gwyliau cyhoeddus sy'n cynyddu gyda hyd eich gwasanaeth. Gallwch hefyd brynu hyd at 10 diwrnod o wyliau blynyddol ychwanegol y flwyddyn
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP) yn cynnig mynediad at gyngor a chymorth cyfrinachol 24/7
- Tâl salwch galwedigaethol
- Cynllun pensiwn cyfrannol

**Amdanom Ni**

Mae mwy o bobl nag erioed yn byw gyda chanser yng Nghymru, gyda thua 20,000 o bobl yn cael diagnosis bob blwyddyn.

Rydyn ni'n rhoi cymorth, gobaith, a llais i bawb a effeithir gan ganser. Rydyn ni'n deall sut gall canser effeithio ar bob agwedd o fywyd a sut mae'n effeithio ar deuluoedd a ffrindiau hefyd. Mae ein hystod eang o wasanaethau yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth arbenigol i bobl sy'n byw â chanser, a'u hanwyliaid.

Ynghyd â'n cymuned ysbrydoledig o staff, gwirfoddolwyr, a chefnogwyr, rydym yn benderfynol o fod yma i bawb yr effeithir heddiw, yfory, a thu hwnt.

**Proses Recriwtio**

Gwnewch gais gyda'ch CV a'ch llythyr eglurhaol sy'n mynd i'r afael â'r meini prawf a nodir ym Manyleb y Person trwy wefan Gofal Canser Tenovus.

Cyflwynwch eich cais cyn gynted â phosibl oherwydd weithiau byddwn yn cau ein hysbysebion yn gynnar os byddwn yn derbyn digon o geisiadau ar gyfer y rôl.

Yng Ngofal Canser Tenovus rydym wedi ymrwymo i wneud ein gweithle yn amrywiol ac yn gynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn gallu bod yn ddilys iddyn nhw yn y gwaith. Rydym yn falch o fod yn gyflogwr cyfle cyfartal nad yw'n gwahaniaethu ar sail Nodweddion Gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd pob ymgeisydd cymwys yn cael ystyriaeth gyfartal ar gyfer cyflogaeth a byddwn yn addasu ein prosesau recriwtio lle y gallwn i gefnogi pobl sy'n dymuno ymuno â ni.

Os gallwn eich cefnogi gyda'ch cais o gwbl, cysylltwch â ni yn **people@tenovuscancercare.org.uk**

Os ydych yn chwilio am her nesaf eich gyrfa, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.